Cael diwrnod da? Astudiaeth ar weithgareddau dydd cymunedol ar gyfer pobol ag anableddau dysgu: Crynodeb

social care
institute for excellence

scie

Cael diwrnod da? Astudiaeth ar weithgareddau dydd cymunedol ar gyfer pobol ag anableddau dysgu

Rhagarweiniad

Roedd astudiaeth "Cael diwrnod da" yn ystyried y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobol ag anableddau dysgu, i'w gallugoi i wneud pethau 'yn ystod y dydd'. Mae hyn yn cynnwys penwythnosau a chyda'r min nos.

Roedd yr astudiaeth yn ystyried yr hyn mae pobol yn ei wneud mewn cymunedau cyffredin. Yn y gorffennol, roedd gan y rhan fwyaf o bobol 'wasanaeth dydd' ac roedden nhw'n mynychu canolfannau dydd. Nawr, mae llawer yn peidio defnyddio canolfannau dydd. Mae gwasanaethau yn eu cefnogi mewn:

- llefydd gwaith
- dosbarthiadau addysgu a cholegau
- canolfannau hamdden a chwaraeon
- canolfannau cymuned lleol
- o gwmpas trefi a phentrefi.

Mae'r llywodraeth am i'r newid hwn ddigwydd. Yn y ddogfen Valuing People (2001), soniodd am 'foderneiddio' gwasanaethau dydd.

Edrych ar y newidiadau sydd wedi digwydd yr oedd yr astudiaeth hon.

- beth mae gwasanaethau yn ei wneud i helpu pobol i 'Gael diwrnod da' yn eu cymunedau arferol?
- beth sy'n anodd i'r gwasanaethau a pha gymorth sydd ei angen arnynt?

Roedd yn ystyried yr hyn mae gwasanaethau yn ei wneud i helpu pobol ag anableddau dysgu, yn cynnwys pobol o gymunedau du a lleifarifoedd ethnig, pobol ag anghenion cymhleth, a phobol sydd a chanddynt ymddygiad heriol.

Cael diwrnod da

Bwriad Cael diwrnod da yw:

- gwneud pethau sydd a chanddyn nhw bwrpas penodol
- bod mewn llefydd cyffredin, yn gwneud yr hyn y byddai'r rhan fwyaf o aelodau'r gymuned honno yn ei wneud
- gwneud pethau sy'n addas i chi
- derbyn cefnogaeth sy'n ateb eich gofynion
- cadw cyswllt clos gyda phobol leol, cwrdd gyda phobol a datblygu cyfeillgarwch.

Ein canfyddiadau

Mae gwasanaethau yn y gymuned yn newid ac yn datblygu drwy brofiad. Mae llawer o gynghorau

lleol yn ei chael hi'n anodd 'moderneiddio' gwasanaethau dydd a chreu gwasanaethau yn y gymuned yn lle'r canolfannau dydd. Mae ffactorau fel cyfoeth ardal, gwleidyddiaeth leol a natur y boblogaeth yn effeithio ar ddatblygiadau lleol. Mae mwy o bobol ag anghenion arbennig nag o'r blaen, ac mae cynghorau yn ei chael hi'n anodd i ateb y galw.

Mae angen mwy o ymchwil

Mae tipyn o ymchwil wedi digwydd i gefnogaeth yn y gweithle, ond ddim llawer ar weithgareddau dydd. Mae angen ymchwilio'n bellach i faes cefnogaeth yn y gymuned.

Rhai pethau a allai fod o gymorth, a rhai anhawsterau...

Mae partneriaethau yn datblygu:

- mae pobol ag anableddau dysgu a gofalwyr teulu ar gyrff rheoli a chyngori
- mae 'cylchoedd cefnogi' (neu gylchoedd cynllunio) yn galluogi mwy o bobol i gyfrannu, er nad yw'n digwydd yn helaeth iawn eto.

Mae grwpiau hunan-eirioli yn arwain rhai prosiectau llwyddiannus i wella bywydau cymdeithasol pobol a darparu gwybodaeth leol – ond yn y byr-dymor yn unig y mae llawer ohonynt yn cael eu hariannu.

Mae rhai rhieni wedi cychwyn gwasanaethau newydd neu wedi trefnu taliadau uniongyrchol a chefnogaeth ar gyfer eu meibion a'u merched. Mae mewnbwn rhieni wedi llywio gwasanaethau yn y gymuned. Mae rhai cynlluniau wedi'u hatal neu'u newid. Mae angen neilltuo amser i siarad gyda theuluoedd.

Arweinyddiaeth

Gwelir Arweinyddiaeth drwy:

- effaith Valuing People. Mae Gwasanaethau yn glir ynghylch yr hyn maen nhw yn ceisio ei wneud i helpu pobol
- gwaith y grwpiau hunan-eirioli wrth drefnu gweithgareddau cymdeithasol
- unigolion sy'n benderfynol o gael eu cynnwys.

Does gan arweinwyr gwasanaethau anableddau dysgu y cynghorau ddim pwer, bob amser, i wneud penderfyniadau. Mae hyn yn gallu bod yn anodd. Yn aml adnoddau a blaenoriaethau lleol sy'n penderfynu ym mha fodd y mae gwasanaethau yn cael eu newid.

Gellid gwneud llawer mwy i ddatblygu teuluoedd a phobol gydag anableddau dysgu i fod yn arweinwyr eu hunain.

Newid yr hyn mae pobol yn ei feddwl ac yn ei wneud

Mae hyn yn digwydd drwy:

- hyfforddi staff i edrych ar bobol yn gyntaf
- gwasanaethau yn 'meddwl fel busnes'
- pobol yn cael *profiad* uniongyrchol o weithgareddau cymunedol llwyddiannus
- canolbwyntio mwy ar fusnesau cymdeithasol a hunan-gyflogaeth

Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau cymuned 'ganolfan'. Yn aml mae'r canolfannau hyn yn cael eu rhannu rhwng grwpiau. Mae perygl y bydd y rhain yn datblygu'n ganolfannau dydd bychain. Mae angen i wasanaethau gael cynllun yn ei le i sicrhau na fydd hyn yn digwydd.

Mae rhai gwasanaethau ar gyfer pobol ddu a phobol o leiafrifoedd ethnig ond nid yw'n ymddangos fod gwasanaethau cyffredinol yn cynnwys pobol yn well.

Weithiau, dyw'r gwasanaethau ddim cystal a'r hyn a honnir. Mae angen eu harfarnu i sicrhau eu bod gystal a'r hyn a honnir.

Cynllunio yn effeithiol gyda phobol

Yn ymarferol:

- mae pobol mewn gwasanaethau cymunedol yn ystyried pobol yn gyntaf ac yn anelu at 'fywydau cyffredin'
- mae pobol sy'n ystyried anghenion pobol yn ganolog yn aml yn newid eu dulliau, yn aml drwy gydweithio gyda theuluoedd a defnyddio taliadau uniongyrchol. Ond nid oes gan lawer agwedd bobol-ganolog fel hyn
- mae cynlluniau cefnogi pobol yn y gweithle yn bobol-ganolog eu hagwedd ac yn llwyddiannus
- mae rhai pobol yn defnyddio budd-daliadau symudedd i brynu ceir neu dalu gyrwyr er mwyn goresgyn anhawsterau teithio.

Mae bywydau pobol wedi gwella am eu bod yn gwneud pethau mewn llefydd cymunedol cyffredin ac mae'r gefnogaeth y mae'n nhw'n ei derbyn yn fwy pobol-ganolog.

Rheoli arian

Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi mwy o ddewis i bobol ac mae mwy nawr yn eu derbyn. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn y gymuned yn cael 'bloc' o arian. Does dim cyswllt rhwng yr arian ac unigolion. Felly mae'n amhosib i'r rhan fwyaf o wasanaethau ddweud beth yw'r gost i bob person.

Mae 'na anhawsterau:

- mae'n anodd i reolwyr symud arian o gwmpas er mwyn galluogi pobol i brynu'r gwasanaethau sydd arnynt eu hangen
- dyw'r rhan fwyaf o ddatblygiadau cymuned heb dderbyn arian ychwanegol ar gyfer staff.

Cael cynllun cyflawn, a sicrhau ei fod yn digwydd

Yn ymarferol:

- does dim digon o gefnogaeth gweithle yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae angen i wasanaethau cymuned gael cynllun cliriach ar hyn
- mae arian ychwanegol wedi'i ddefnyddio yn bennaf ar gyfer 'canolfannau' cymuned. Mae rhai wedi defnyddio'r arian i greu cyfleusterau newid da
- mae angen cynllunio yn well er mwyn sicrhau fod cyfloedd a chefnogaeth ar gael yn gyfartal i bawb
- mae rhai gwasanaethau yn cefnogi pobol yn y cartref ac oddi cartref. Wrth gynllunio mewn dull pobol-ganolog, gall eu bywydau wella yn fawr. Nid oes llawer o wasanaethau yn gwneud hyn eto: efalli y bydd angen i rai ardaloedd eu 'tyfu' nhw.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd ag arnynt anableddau dysgu mawr a chymhleth yn

defnyddio gwasanaethau bychain ac 'arbenigol' gyda'u canolfan a'u hoffer eu hunain.Ychydig o gynlluniau gwaith sy'n gwasanaethu pobol ag anghenion dybryd. Mae hyn yn anghyfartal. Mae'n fater o'r pwys mwyaf ac yn peri gofid.

Datblygu Staff

Mae llawer o bobol brwdfrydig yn gweithio mewn gwasanaethau yn y gymuned a chyflogaeth. Gallwn weld fod:

- llawer yn gweithio mewn mathau newydd o swyddi a chyda chyfrifoldebau newydd, ac eraill yn gweithio mewn ffyrdd newydd drwy ewyllys da a rheolaeth tim dda
- mae'n haws pan fo pawb yn y gwasanaeth yn credu fod gan bawb hawl i 'fywyd cyffredin'
- mwy o staff yn derbyn hyfforddiant gan bobol ag anableddau dysgu a gofalwyr teulu

Mae denu a chadw staff yn anodd i wasanaethau. Mae rhai gwasanaethau yn defnyddio staff o asiantaethau fel ffordd i ostwng costau. Nid yw'n glir pa effaith mae hyn yn ei chael ar ansawdd gwasanaethau.

Mae angen i wasanaethau gynllunio sut maen nhw'n mynd i helpu pobol ag anableddau dysgu i gwrdd gyda phobol eraill. Mae angen hyfforddi staff ac yna eu cefnogi i weithredu'u cynlluniau. Dylai staff mewn gwasanaethau cymunedol dydd hefyd ddysgu mwy o ffyrdd i helpu pobol

i ddatblygu sgiliau. Gallai staff o wasanaethau cyflogaeth helpu gyda hyn.

Creu cymuned groesawgar

Mae rhai pethau o gymorth:

- datblygu gwasanaethau a chefnogaeth lleol
- creu partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol. Mae llawer o hyn yn digwydd drwy ddamwain yn hytrach na chael ei gynllunio.

Mae peth o'r gwaith gwirioneddol dda yn digwydd mewn prosiectau bychain a chynlluniau cyflogaeth sy'n cael eu hariannu dros dymor byr yn unig. Mae hyn yn peri gofid mawr.

Trefnu cefnogaeth ar gyfer gweithgaredddau cymunedol, gan gynnwys mewn colegau, yw un o'r problemau mwyaf. Mae gwasanaethau yn ei chael hi'n arbennig o anodd trefnu'r gefnogaeth hon ar gyfer pobol sydd ag arnynt gefnogaeth helaeth.

Mae angen i staff lleol a gwasanaethau siarad gyda'i gilydd yn well, a chyd-weithio'n well. Mae gormod o gystadleuaeth rhwng gwasanaethau.

Gwybodaeth drylwyr

Mae angen gwybodaeth dda ar bobol i'w galluogi i ddewis. Mae clywed am brofiadau pobol eraill,

rhoi tro ar bethau a gwybodaeth "beth sy mlaen" yn help mawr. Mae rhai grwpiau hunan-eirioli yn gwneud hyn yn dda iawn.

Cychwyn yn gynnar

Mae helpu pobol ifainc i gael hyd i waith o gymorth mawr. Nid oes digon o gefnogaeth waith i bobol ifainc sydd ar fin gadael ysgol. Mae rhai gwasanaethau cymuned yn cynnig cefnogaeth i bobol sydd yn ei chael hi'n anodd gan nad oes ganddyn nhw ddim i wneud yn ystod y dydd. Does dim help ar gael drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen mwy o'r math hwn o gefnogaeth.

Cefnogaeth gan wleidyddion

Heb hyn, araf fydd datblygiad gwasanaethau a chefnogaeth yn y gymuned.

Rheoli timau yn effeithiol

Mae hyn yn hollbwysig mewn timau cymuned. Mae angen i reolwyr sicrhau bod staff yn canolbwyntio ar ddyheadau'r bobol ag anableddau dysgu, eu cefnogi a monitro.

Beth sydd ei angen?

Mae angen inni wybod pa mor dda y mae gwasanaethau yn y gymuned ac a yw pobol sy'n derbyn cefnogaeth yn 'cael diwrnod da'. Beth sydd 'na ar gyfer pobol o leiafrifoedd ethnig,

pobol ag anableddau dysgu mawr a chymhleth a phobol sydd a chanddynt ymddygiad heriol? Ydyn nhw yn cael yr un ystod o wasanaethau i ddewis ohonynt? Mae angen inni hefyd wybod am yr hyn sy'n digwydd mewn gwasanaethau addysg bellach ac addysg oedolion a hefyd am gost cefnogaeth gymunedol.

Mae pobol sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymuned am helpu pobol i gael bywydau da yn eu cymunedau. Mae arnyn nhw eisiau canllawiau. Bydd troslwyddo gwybodaeth yn eu helpu i wireddu hynny.

Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan y Sefydliad er Rhagoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol/ Social Care Institute for Excellence (SCIE) ac fe'i cwblhawyd gan y Foundation for People with Learning Disabilities (FPLD) a Norah Fry Research Centre (NFRC).

Cyhoeddiadau eraill sydd ar gael gan SCIE

CEFNOGI RHIENI ANABL A RHIENI SYDD A CHANDDYNT ANGHENION CEFNOGAETH YCHWANEGOL

Jenny Morris a Michele Wates
Tachwedd 2006
Ar-lein yn unig

CYFEIRIO AT RESTR GWARCHOD OEDOLION BREGUS (POVA)

Julie Barnes
Mehefin
Rhif archebu PG07

Ewch at www.scie.org.uk i gael gwybod am holl gyhoeddiadau SCIE

Cael diwrnod da? Astudiaeth ar weithgareddau dydd i bobol ag anableddau dysgu: Crynodeb

Mae'r adolygiad gwybodaeth hwn yn mynd i'r afael gyda chwestiwn penodol: Beth sydd wedi cyfrannu, a beth sydd heb gyfrannu, at ddarparu yn llwyddiannus weithgareddau dydd cymunedol ar gyfer pobol ag anableddau dysgu?

Mae holl gyhoeddiadau ac adnoddau SCIE ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol, ar gais.

Social Care Institute for Excellence
Goldings House, 2 Hay's Lane
Llundain SE1 2HB
ffon 020 7089 6840
ffacs 020 7089 6841
ffon tecst 020 7089 6893
www.scie.org.uk
Registered charity no. 1092778
Company registration no. 4289790